# CA3 Cymraeg – Disgrifio person neu gymeriad

**Gweithgaredd 2**

**Atebion**

Yr ail ddisgrifad yw'r gorau oherwydd ei fod yn defnyddio mwy o nodweddion arddull byw, ee:

- cymariaethau, ee llygaid llwyd bychain fel botymau ar grys
- amrywio dechrau brawddegau, ee heb os, yn ddi-ffael, anaml iawn, er gwaethaf
- berfau diddorol, ee ymlwybro
- personoli, ee ei wallt byr tywyll yn eistedd yn daclus ar ei ben

**Heb os**, bachgen digon plaen oedd Gareth. Roedd ganddo lygaid **llwyd bychain fel botymau ar grys** ac roedd **ei wallt byr tywyll yn eistedd yn daclus ar ei ben**. **Yn ddi-ffael**, roedd Gareth yn **ymlwybro** at yr un fainc i fwyta ei ginio yn ddyddiol. **Anaml iawn** y byddai Gareth yn cynnal sgwrs ag unrhyw un a doedd dim un o drigolion y parc yn meiddio siarad ag ef. **Er gwaethaf** ei bersonoliaeth garedig, roedd rhywbeth yn od am Gareth.


© BBC